BVA | Cangen Cymru Welsh Branch
British Veterinary Association

Llyr Gruffydd MS, Cabinet Minister for Rural Resilience and Sustainability
Welsh Government
5th Floor
Tŷ Hywel
Cardiff Bay
CF99 1SN
E: Correspondence.Llyr.Gruffydd@gov.wales

04 August 2026

Dear Cabinet Secretary,

Thank you for meeting us recently, and for speaking at our annual Welsh Dinner in July. We welcomed the speeches from you and the First Minister recognising the importance of high standards of animal health and welfare in protecting public health, food safety, environmental sustainability and the strength of Wales' rural economy.

We were also pleased to hear you state that *"a key part of the [Sustainable Farming] scheme (SFS) is the Animal Health Improvement Cycle (AHIC)"*, however the recently announced transition arrangements for the AHIC are deeply concerning and we request urgent clarification and assessment of their impact on veterinary practices and animal health and welfare in Wales.

We support your intention to reduce unnecessary bureaucracy and duplication where equivalent information is already being gathered through aligned farm assurance schemes. However, we are concerned that this could be a first step towards treating farm assurance as equivalent to Universal Action 12 (UA12), which we would consider to be a breach of your commitments to animal health and welfare. The AHIC is a veterinary-led improvement programme designed to ensure every participating farm receives regular veterinary input focused on disease prevention, productivity and continual improvement. Assurance-based compliance models are valuable, but cannot deliver all the outcomes the AHIC was designed to achieve. **We ask you to confirm that farm assurance will not be considered equivalent to UA12, and that any future model will be judged against the original outcomes of the AHIC, not simply by whether it reduces administrative burden.**

We have serious concerns about the 2026 transition arrangements, under which farms registered with qualifying farm assurance schemes are eligible for SFS funding without undertaking the anticipated AHIC veterinary visit. These arrangements are likely to have an unintended impact on the sustainability of veterinary practices in Wales. Practices invested heavily in preparation for UA12 by training staff, recruiting vets and support staff, expanding capacity and developing business plans around the anticipated AHIC workload. These investments were made in good faith in response to Welsh Government's request for the profession to be ready to deliver from 2026.

We believe Welsh Government has seriously underestimated the impact of this sudden change midway through the Scheme year. In our meeting, your team informed us that only eight farm-assured farms had already undertaken the AHIC. We expressed doubts about this figure at the time, and our initial conversations and informal survey of Welsh practices suggest it is a serious underestimate. The 17 practices that have responded so far have reported at least 120 completed AHICs, with an estimated 75% involving Farm Assured farms. Some practices have completed or started significant numbers of AHIC visits that are not yet uploaded to the system. Practices have also invested time delivering meetings to encourage farmers to undertake AHICs, building momentum which we now fear will be lost,

and undermining important messaging about the value of this work to animal health and welfare. **We call on you to urgently complete a full assessment of the impact of these changes.**

The response from Welsh vets has been immediate and overwhelmingly negative. Members are concerned that the change undermines trust and professional credibility with farmers, and risks giving the impression that the AHIC visit was simply a way for vets to take money from farmers. Practices have already seen scheduled AHIC visits cancelled and are concerned that future work will be considered as an additional expense. BVA has previously warned Welsh Government that the payment arrangements could create this type of situation. Veterinary practices should not carry the financial consequences of Government policy decisions.

Any effort to streamline the AHIC and farm assurance systems should not come at the expense of animal health and welfare in Wales. Members value the AHIC because it creates positive engagement with farmers and supports meaningful changes on farm, but are concerned that *"moving the goalposts will discourage [farmers] from carrying out recommendations from our initial plan."* This change also risks undermining confidence in the SFS and in future Welsh Government programmes, with members reporting increased reluctance to invest in future Government-led initiatives.

These concerns should have been considered before changes were made to the SFS. BVA was not made aware of the changes until after the decision had been made, and would welcome greater transparency around the evidence underpinning the Red Tape Review's recommendations. **We ask you to confirm who was consulted, what evidence was considered, whether any assessment of veterinary impacts was undertaken, and how the recommendations align with the original objectives of UA12.**

We continue to gather data and insights from members, and would welcome the opportunity to meet with you and your team to share this evidence and discuss how you can support the veterinary profession in Wales while protecting the animal health and welfare objectives of the Scheme. We would be grateful if your office could arrange a time by liaising with BVA's Head of Policy & Public Affairs, Megan Knowles-Bacon, at megankb@bva.co.uk.

Yours sincerely,

**Rob Williams**
BVA President

**Phoebe McCarter**
BVA Welsh Branch President

British Veterinary Association
Patron: His Majesty The King

7 Mansfield Street, London W1G 9NQ

T 020 7636 6541 E bvahq@bva.co.uk
W www.bva.co.uk



Registered number: 206456 England.
Company limited by guarantee.

Llyr Gruffydd AS, Gweinidog Cabinet dros Wydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd
Llywodraeth Cymru
5ed Llawr
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN
E: Correspondence.Llyr.Gruffydd@gov.wales

04 Awst 2026

Annwyl Ysgrifennydd y Cabinet,

Diolch am gyfarfod â ni yn ddiweddar, ac am siarad yn ein Cinio Cymreig blynyddol ym mis Gorffennaf. Croesawyd yr areithiau gennych chi a'r Prif Weinidog yn cydnabod pwysigrwydd safonau uchel o iechyd a lles anifeiliaid wrth ddiogelu iechyd y cyhoedd, diogelwch bwyd, cynaliadwyedd amgylcheddol a chryfder economi wledig Cymru.

Roeddem hefyd yn falch o'ch clywed yn datgan bod *"rhan allweddol o'r cynllun [Ffermio Cynaliadwy] (SFS) yw'r Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid (AHIC)";* fodd bynnag, mae'r trefniadau pontio a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer yr AHIC yn peri pryder mawr, ac rydym yn gofyn am eglurhad brys ac asesiad o'u heffaith ar bractisau milfeddygol ac ar iechyd a lles anifeiliaid yng Nghymru.

Rydym yn cefnogi'ch bwriad i leihau biwrocratiaeth a dyblygu diangen lle mae gwybodaeth gyfatebol eisoes yn cael ei chasglu drwy gynlluniau sicrwydd fferm cydgysylltiedig. Fodd bynnag, rydym yn pryderu y gallai hyn fod yn gam cyntaf tuag at drin sicrwydd fferm fel rhywbeth cyfwerth â Gweithred Gyffredinol 12 (UA12), a byddem yn ystyried hynny'n groes i'ch ymrwymiadau i iechyd a lles anifeiliaid. Mae'r AHIC yn rhaglen wella dan arweiniad milfeddygon sydd wedi'i chynllunio i sicrhau bod pob fferm sy'n cymryd rhan yn cael mewnbwn milfeddygol rheolaidd sy'n canolbwyntio ar atal clefydau, cynhyrchiant a gwelliant parhaus. Mae modelau cydymffurfio ar sail sicrwydd yn werthfawr, ond ni allant gyflawni'r holl ganlyniadau yr oedd yr AHIC wedi'i gynllunio i'w cyflawni. **Gofynnwn i chi gadarnhau na fydd sicrwydd fferm yn cael ei ystyried yn gyfwerth ag UA12, ac y bydd unrhyw fodel yn y dyfodol yn cael ei asesu yn erbyn canlyniadau gwreiddiol yr AHIC, nid yn unig yn ôl a yw'n lleihau'r baich gweinyddol.**

Mae gennym bryderon difrifol ynghylch trefniadau pontio 2026, lle mae ffermydd sydd wedi'u cofrestru gyda chynlluniau sicrwydd fferm cymwys yn gymwys i gael cyllid SFS heb gynnal yr ymweliad milfeddygol AHIC a ragwelwyd. Mae'r trefniadau hyn yn debygol o gael effaith anfwriadol ar gynaliadwyedd practisau milfeddygol yng Nghymru. Bu practisau'n buddsoddi'n sylweddol wrth baratoi ar gyfer UA12 drwy hyfforddi staff, recriwtio milfeddygon a staff cymorth, ehangu capasiti a datblygu cynlluniau busnes o amgylch y llwyth gwaith AHIC a ragwelwyd. Gwnaed y buddsoddiadau hyn yn ddidwyll mewn ymateb i gais Llywodraeth Cymru i'r proffesiwn fod yn barod i gyflawni o 2026.

Credwn fod Llywodraeth Cymru wedi tanamcangyfrif yn ddifrifol effaith y newid sydyn hwn yng nghanol blwyddyn y Cynllun. Yn ein cyfarfod, dywedodd eich tîm wrthym mai dim ond wyth fferm â sicrwydd fferm oedd eisoes wedi cwblhau'r AHIC. Mynegwyd amheuon gennym am y ffigur hwn ar y pryd, ac mae ein sgyrsiau cychwynnol a'n harolwg anffurfiol o bractisau yng Nghymru yn awgrymu ei fod yn danamcangyfrif difrifol. Mae'r 17 practis sydd wedi ymateb hyd yma wedi

adrodd o leiaf 120 AHIC wedi'u cwblhau, gydag amcangyfrif o 75% ohonynt yn ymwneud â ffermydd â sicrwydd fferm. Mae rhai practisau wedi cwblhau neu ddechrau niferoedd sylweddol o ymweliadau AHIC nad ydynt eto wedi'u huwchlwytho i'r system. Mae practisau hefyd wedi buddsoddi amser yn cynnal cyfarfodydd i annog ffermwyr i ymgymryd ag AHICs, gan adeiladu momentwm yr ydym bellach yn ofni y caiff ei golli, ac yn tanseilio negeseuon pwysig am werth y gwaith hwn i iechyd a lles anifeiliaid. **Galwn arnoch i gwblhau asesiad llawn ar frys o effaith y newidiadau hyn.**

Mae ymateb milfeddygon Cymru wedi bod yn syth ac yn hynod negyddol. Mae aelodau'n pryderu bod y newid yn tanseilio ymddiriedaeth a hygrededd proffesiynol gyda ffermwyr, ac yn peryglu rhoi'r argraff mai ffordd i filfeddygon gymryd arian gan ffermwyr yn unig oedd yr ymweliad AHIC. Mae practisau eisoes wedi gweld ymweliadau AHIC wedi'u trefnu yn cael eu canslo ac maent yn pryderu y bydd gwaith yn y dyfodol yn cael ei ystyried yn gost ychwanegol. Mae BVA wedi rhybuddio Llywodraeth Cymru o'r blaen y gallai'r trefniadau talu greu'r math hwn o sefyllfa. Ni ddylai practisau milfeddygol ysgwyddo canlyniadau ariannol penderfyniadau polisi'r Llywodraeth.

Ni ddylai unrhyw ymdrech i symleiddio systemau'r AHIC a sicrwydd fferm ddod ar draul iechyd a lles anifeiliaid yng Nghymru. Mae aelodau'n gwerthfawrogi'r AHIC am ei fod yn creu ymgysylltiad cadarnhaol â ffermwyr ac yn cefnogi newidiadau ystyrlon ar ffermydd, ond maent yn pryderu y bydd *"symud y pyst gôl yn digalonni [ffermwyr] rhag gweithredu argymhellion ein cynllun cychwynnol."* Mae'r newid hwn hefyd yn peryglu tanseilio hyder yn yr SFS ac mewn rhaglenni Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, gydag aelodau'n adrodd am fwy o amharodrwydd i fuddsoddi mewn mentrau dan arweiniad y Llywodraeth yn y dyfodol.

Dylai'r pryderon hyn fod wedi cael eu hystyried cyn i newidiadau gael eu gwneud i'r SFS. Ni chafodd BVA wybod am y newidiadau tan ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud, a byddem yn croesawu mwy o dryloywder ynghylch y dystiolaeth sy'n sail i argymhellion yr adolygiad i'r baich biwrocrataidd ar ffermydd teuluol. **Gofynnwn i chi gadarnhau pwy gafodd eu hymgynghori, pa dystiolaeth a ystyriwyd, a gynhaliwyd unrhyw asesiad o effeithiau ar filfeddygon, a sut mae'r argymhellion yn cyd-fynd ag amcanion gwreiddiol UA12.**

Rydym yn parhau i gasglu data a mewnwelediadau gan aelodau, a byddem yn croesawu'r cyfle i gyfarfod â chi a'ch tîm i rannu'r dystiolaeth hon a thrafod sut y gallwch gefnogi'r proffesiwn milfeddygol yng Nghymru wrth ddiogelu amcanion iechyd a lles anifeiliaid y Cynllun. Byddem yn ddiolchgar pe gallai'ch swyddfa drefnu amser drwy gysylltu â Phennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus BVA, Megan Knowles-Bacon, yn megankb@bva.co.uk.

Yn gywir,

**Rob Williams**
Llywydd BVA

**Phoebe McCarter**
Llywydd Cangen Cymru BVA



British Veterinary Association
Patron: His Majesty The King
7 Mansfield Street, London W1G 9NQ
T 020 7636 6541 E bvahq@bva.co.uk
W www.bva.co.uk

Registered number: 206456 England.
Company limited by guarantee.